



Hydref 7ed, 2018



Mae oedfa'r bore 'ma yn cael ei harwain gan aelodau Pentyrch. Diolch iddyn nhw i gyd.

### Y Suliau Nesaf

Hydref 14eg Y Parchg Aled Edwards gyda  
Huw Roberts

Hydref 21ain - Sul y Cynhaeaf gyda'r  
Ysgol Sul

Hydref 28ain - Gethin Rhys gyda Helen  
Prosser

Tachwedd 4ydd - Ann ac Emllyn Davies,  
Tachwedd 11eg - Sul y Cofio. Canrif yn  
union ers diwedd y Rhyfel Mawr cynhaliwn  
fore arbennig i ymroi i heddwch tra'n  
cofio'r rhyfel. **Mynnwch air gyda Geraint  
Rees oes cerdd, stori, darlun, hanesyn  
ayyb gyda chi? Diolch.**  
Tachwedd 18eg - Sul Teuluol

### Merched y Tabernacl

#### Bore Iau Hydref 18

Cwrdd yn y Ganolfan am 10.30 i glywed Aled  
Pickard yn adrodd hanes mudiad Masnach Deg.  
Hefyd bydd cyfle i brynu nwyddau ac anhregion ar  
gyfer y Nadolig.

#### Tachwedd 9fed

Mae'r bws i Lamed yn llawn!

### Heddwch yn y Ddinas

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym  
Mae Caerdydd eleni fe lanswyd llawlyfr  
dwyieithog *Heddwch yn y Ddinas*, wedi ei lunio  
gan Jon Gower a'i gyhoeddi ar y cyd gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg a Chymdeithas y Cymod.  
Mae'r llyfryn deniadol hwn yn tywys y darlennydd  
o amgylch lleoliadau yn ardal Caerdydd sy'n  
ymwneud â heddwch a heddychiaeth. Pris y gyfrol  
yw £5. Os nad ydych eisoes wedi ei brynu yna mae  
modd archebu copi trwy roi eich henw i Rowland  
Wynne naill ai ar ddiwedd yr oedfa heddiw neu  
mewn neges e-bost ato:  
[marian.rowland@btinternet.com](mailto:marian.rowland@btinternet.com)

### CINIO CYNHAEAF

Mae na fwriad i gynnal cinio cynhaeaf yn  
neuadd y pentref yn syth wedi'r  
gwasanaeth cynhaeaf ar Hydref 21. Os  
allwch chi helpu i ddarparu cawl / roliau /  
caws / pwdinau / dioddydd, yna byddai'n  
braf clywed gennych chi. Fe fydd tocynnau  
ar gael i'w prynu maes o law gan aelodau'r  
Ysgol Sul a'r Twmiaid. Mynnwch air gyda  
Lowri Roberts o g y dda.

### CASGLU DILLAD A NWDYDDAU

Bydd casgliadau dillad, nwyddau a  
thrugareddau ar gyfer **ADREF**, a chasgliadau  
dillad isa a dillad tywydd gwlyb i blant yn eu  
harddegau ar gyfer **NANTGWYN** yn parhau,  
wrth i'r angen gynyddu dros fisoedd y gaeaf.



Fe fyddwn ni hefyd yn eich gwahodd i adael  
dillad ac offer - mawr a bach - ar gyfer  
babanod ifanc yn y capel, er mwyn cefnogi  
**CWTCH**, elusen sy'n cydweithio gydag  
ymwelwyr ieuchyd a gweithwyr cymdeithasol i  
helpu mamau anghenus, ac wedi ei lleoli mewn  
warws yn Ffynnon Taf. Gofynnwn i chi  
labelu'r bagiau fel ein bod yn eu danfon i'r  
elusen benodol. Diolch yn fawr i chi am eich  
cefnogaeth bob amser.

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar ein  
tudalen Facebook a [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org)

### **CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:**

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi  
ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n  
gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer  
dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

## Rhybudd Perygl

Nid yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn arbennig felly i blant chwarae ynddi. Felly apeliwn ar rieni, athrawon yr Ysgol Sul ac eraill i wneud yn siŵr bod y plant yn eu gofal yn cadw draw o'r fynwent rhag iddynt gael niwed.

### Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 9 Hydref. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu fater i'w godi a wnewch chi gysylltu gyda Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk neu 01443 225205 / 07710 237327) erbyn nos Lun 8 Hydref fan bellaf. Diolch.

### Diogelu Grwpiau Bregus

Nos Fercher 17 Hydref  
O 7 tan 9.30 y.h.

Capel Minny Street, Caerdydd

Cynhelir sesiwn hyfforddiant dan ofal Julie Edwards, Swyddog Hyfforddiant y Panel Diogelwch Cyd-enwadol i helpu eglwysi i ddeall eu cyfrifoldeb tuag at blant a grwpiau bregus o fewn ein capeli. Mae'r sesiwn yn arbennig o addas i'r ymddiriedolwyr, athrawon yr Ysgol Sul a'r Twmiaid a'r Gofalwyr Ardal hynny na lwyddodd i fynychu sesiwn cyffelyb a drefnwyd yn y Tabernacl yn haf 2017 ond mae croeso hefyd i unrhyw un arall sydd am well dealltwriaeth o'r maes.

### DEFNYDD Y GANOLFAN A'R CAPEL

Mae croeso i aelodau'r capel ag eraill wneud defnydd o'n hadeiladau, ond yng ngwyneb y ffaith bod llawer o ddefnydd ar y safle y dyddiau hyn mae wir angen bwcio o flaen llaw. Yn ystod y pythefnos hwn bydd y grwpiau canlynol wedi gwneud defnydd o'r safle:


Clwb Crefft Nos Lun  
Côr Cymunedol O25  
Bore coffi Mercher  
Gwersi Cymraeg i oedolion  
Côr yr Einion  
Parti'r Efail  
Cylch Cadwgan  
Ysgol Gerdd Arius  
Ysgol Sul  
Teulu Twm  
2 gynulleidfa  
Merched y Wawr  
U3A  
Pwyllgorau'r Capel  
Pobol y Cwm

Bwcio: [carolinerees2@hotmail.com](mailto:carolinerees2@hotmail.com) 07539452130

## APÊL MADAGASCAR 2018


Mae apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni'n anelu at godi £200,000 i helpu Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd. Bydd yr arian yn cefnogi prosiectau i ddarparu lloches i ferched bregus, meddygfa a deintyddfa i bobl anghenus, cartref i blant amddifad, a chynllun i hyfforddi gweinidogion i ddysgu'r bobl sut i dyfu mwy o gnydau er mwyn lliniaru problemau diffyg maeth. Daw'r apêl i ben ym mis Mehefin 2019, a'n gobaith ni fel capel yw casglu £30 gan bob aelod dros y flwyddyn. Mae croeso mawr i unrhyw un drefnu achlysur fel bore coffi hefyd, i chwyddo'r coffrau.

Byddai'n braf anelu at godi dros £5,000 fel coron deilwng ar ymdrechion gloyw Merched y Tab i groesawu'r bobl o F Madagascar fu yma yn ystod dathliadau'r daucanmlwyddiant ym mis Mehefin.



**I Ddeffro Ysbryd y Wlad**  
Robert Evans o'r Ysgol Sul yn arlo  
Cofrestru'n ddiwydiant

Christianity has presented itself as a system of beliefs. That system of beliefs has supported a wide range of unintended consequences - from colonialism to environmental destruction, from subordination of women to stigmatization of LGBT people.



What would it mean for Christians to rediscover their faith - not as a system of beliefs, but as a just and generous way of life, rooted in contemplation and expressed in action, that makes amends for its mistakes, and is dedicated to creating a beloved community for all? - Brian McLaren